

CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL

Rhaid cwblhau'r cais hwn a'i ddychwelyd at: Yr Adran Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE. Rhif Ffôn: 01267 234567

Rhaid anfon y canlynol gyda'r cais:

- a) Trwydded Yrru Gyfredol – Sylwer, o 8fed Mehefin 2015 ymlaen ni fydd rhan bapur y drwydded yrru â cherdyn llun yn ddilys ac ni fydd yn cael ei rhoi mwyach gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA). Er mwyn cyflwyno tystiolaeth o'u cofnod gyrru, mae'n rhaid i ymgeiswyr roi "côd gwirio" gan y DVLA i'r adain drwyddedu. Gellir cael hwn drwy fynd ar-lein www.gov.uk/view-driving-licence neu drwy ffonio'r DVLA (0300 083 0013). Dim ond am 21 diwrnod y bydd y côd a roddir gan y DVLA yn ddilys.
- b) Un ffotograff diweddar ohonoch (Math/Maint Pasbort).
- c) Holiadur meddygol wedi'i llenwi.
- d) Ffurflen gais, wedi'i llenwi, ar gyfer datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ynghyd â'r dogfennau adnabod angenrheidiol (gweler y Nodiadau Cyfarwyddo sydd ynghlwm) ynghyd â ffi o £38.00 (Mae ceisiadau am ddatgeliad yn angenrheidiol er mwyn rhoi'r drwydded i gychwyn a phob tair blynedd wrth gyflwyno ceisiadau am adnewyddu. Os yw ymgeiswyr yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), rhaid iddynt gyflwyno eu Tystysgrif DBS a ffurflen yn Llofnodi eu Caniatâd.
- e) Y ffi briodol ar gyfer y drwydded: **Trwydded 1 Flwyddyn £75.00 Neu Trwydded 3 Blynedd £137.00**

Sylwch – bydd y drwydded 3 blynedd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno eu Trwydded Yrru a'r Côd Gwirio bob blwyddyn. Yn ogystal, os bydd tystysgrif DBS neu dystysgrif feddygol ymgeisydd yn dod i ben yn ystod y cyfnod hwn, rhaid iddynt gyflwyno tystysgrif DBS neu dystysgrif feddygol newydd i'r awdurdod

- f) Ffi ar gyfer y Prawf Gwybodaeth o £19.00 fesul prawf.

Sylwch: Mae'n rhaid i bob ymgeisydd newydd sefyll prawf gwybodaeth cyn gellir rhoi trwydded iddo/iddi. Y marc llwyddo ar gyfer y prawf hwn yw 80%. Dim ond ar ôl i'r ymgeisydd gael tystysgrif DBS ddilys y gellir trefnu i sefyll y prawf gwybodaeth, drwy gysylltu â'r Adran. Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr a drwyddedwyd yn flaenorol o fewn y 12 mis diwethaf sefyll y prawf gwybodaeth.

- g) Tystiolaeth o'ch Hawl i gael Trwydded

Fel o 1af Rhagfyr 2016 bydd eich hawl i weithio yn y DU yn cael ei gwirio fel rhan o'ch cais am drwydded, gallai hyn gynnwys yr awdurdod trwyddedu yn gwirio eich statws mewn fudo gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'n rhaid i chi felly ddarparu dogfen neu gyfuniad o ddogfennau a nodir sy'n addas ar gyfer y gwiriad hwn. Mae rhestr o'r dogfennau wedi'i hatodi yn Atodiad A. Mae'n rhaid i chi ddod â'r ddogfen/dogfennau gwreiddiol, megis pasbort neu hawlen

breswyllo fiometrïg fel y nodwyd yn Atodiad A, er mwyn galluogi cynnal y gwiriad. Bydd y ddogfen/dogfennau'n cael eu copïo a'r copïau'n cael eu cadw gan yr awdurdod trwyddedu. Bydd y ddogfen wreiddiol yn cael ei hanfon yn ôl atoch.

Os oes cyfyngiadau ar y cyfnod amser y gallwch weithio yn y DU, ni fydd eich trwydded yn cael ei rhoi am gyfnod hirach na hwn. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd rhaid ail-adrodd y gwiriad bob tro y byddwch yn adnewyddu neu'n ymestyn eich trwydded. Yn ystod y cyfnod hwn, os byddwch yn cael eich gwahardd rhag cadw trwydded oherwydd nad ydych wedi cydymffurfio â chyfreithiau mewnfudo'r DU, bydd eich trwydded yn darfod a bydd rhaid i chi ddychwelyd y drwydded i'r awdurdod trwyddedu, bydd methu â gwneud hynny yn drosedd.

Os bydd unrhyw fanylion ar y ffurflen hon yn newid cyn bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ystyried eich cais, bydd yn ofynnol ichi gyflwyno manylion ysgrifenedig o fewn 48 awr ar ôl y newidiadau. Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn cawn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.

Hysbysiadau Preifatrwydd

Mae sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir yn bwysig iawn o ran darparu ein gwasanaethau a chadw hyder y cyhoedd.

Ystyr data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn drwyddo draw ac maent yn gyfystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data.

Felly, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'i lunio i esbonio mor glir â phosibl beth rydym yn ei wneud â'ch data personol. I weld yr hysbysiad preifatrwydd trwyddedu, ewch i:

www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/trwyddedu/

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.

Gwiriad Treth (Ile bo'n berthnasol)

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y [canllawiau](#) gan Gyllid a Thollau EM ar gofrestru fy archwiliad treth.

Drwy ddarparu fy nghôd gwirio treth CThEM, rwy'n cydsynio i'r CThEM fy mod wedi cynnal gwiriad treth.

Deallaf na fyddaf yn cael trwydded os nad wyf yn darparu côd gwirio treth.

CAIS AM
DRWYDDED YRRU DDEUOL
AR GYFER CERBYD HACNAI/
CERBYD HURIO PREIFAT

Derbyniwyd.....
Trwydded DVLA.....
Côt Gwirio DVLA.....
Tystysgrif Feddygol
Ffi ar gyfer y cais: £75 £137
Ffi DBS: £38
Ffi ar gyfer y Prawf Gwybodaeth
£19
Cyfanswm a dalwyd £
Rhif derbynneb.....
Lluniau a dderbyniwyd

Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)
1976

Nodwch isod Hyd y Drwydded sydd ei angen arnoch

Trwydded 1 Flwyddyn £75.00 ac yna £38.00 wrth adnewyddu bob blwyddyn

neu

Trwydded 3 Blynedd £137.00 ac yna £101.00 wrth adnewyddu bob 3 blynedd

Sylwch – bydd y drwydded 3 blynedd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno eu Trwydded Yrru a'r Côt Gwirio bob blwyddyn. Yn ogystal, os bydd tystysgrif DBS neu dystysgrif feddygol ymgeisydd yn dod i ben yn ystod y cyfnod hwn, rhaid iddynt gyflwyno tystysgrif DBS neu dystysgrif feddygol newydd i'r awdurdod

**DS: RHAID ATEB POB CWESTIWN YN
LLAWN. DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENAU**

Cyfenw Mr/Mrs//Miss

Cyfenw blaenorol

Enwau cyntaf

Cyfeiriad

.....

Côt Post

Rhif Ffôn Cartref..... Symudol.....

E-bost

Cyfeiriad Blaenorol

A gawsoch chi eich geni yn y DU

DO/NADDO

Os 'Naddo', rhowch fanylion

A fuoch chi erioed yn byw mewn gwlad y tu allan i'r DU

DO/NADDO

Os 'Do', rhowch fanylion

Pa mor hir ydych chi wedi bod yn byw yn y DU.....

A oes gennych chi hawl i weithio yn y DU

OES/NAC OES

Swydd/Galwedigaeth

Gwiriadau Treth - Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

Dim ond os ydych yn gwneud cais ar neu ar ôl 4 Ebrill 2022 y mae'r adran hon yn berthnasol, ac os ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol:

- adnewyddu trwydded; neu
- gwneud cais am yr un math o drwydded a oedd gennych yn flaenorol, a oedd yn peidio â bod yn ddilys lai na blwyddyn yn ôl; neu
- gwneud cais am yr un math o drwydded sydd gennych eisoes gydag awdurdod trwyddedu arall

Côd Gwirio Treth										
-------------------------	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

1. Oedran yr Ymgeisydd Dyddiad Geni

2. Manylion y drwydded gyfredol gan y DVLA a ddelir Dyddiad Cyflwyno

Rhif Cyfresol Grwpiau

Côd Gwirio DVLA.....

3 (a) A ydych chi erioed wedi cael pwl o Epilepsi, y Bendro neu salwch difrifol arall sy'n debygol o effeithio ar eich gyrru? **YDW/NAC YDW**

Os 'Ydw', rhowch fanylion

3 (b) A ydych chi'n dioddef gan unrhyw wendid corfforol sy'n debygol o effeithio ar eich gyrru? **YDW/NAC YDW**

Os 'Ydw', rhowch fanylion

4 A ydych chi erioed wedi eich cael yn euog o

- (a) Unrhyw drosedd foduro? **YDW/NAC YDW** Os 'Ydw', rhowch y manylion isod

Trosedd	Dyddiad y Golfarn	Ardystiadau	Cosb
---------	-------------------	-------------	------

.....

.....

.....

- (b) Unrhyw drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd, anweddustra neu drais? **YDW/NAC YDW**

- (c) Unrhyw drosedd arall (mae hyn yn cynnwys erlyniadau gan berson neu gorff heblaw am yr Heddlu) **YDW/NAC YDW**

Os ydych wedi ateb 'Ydw' i (b) neu (c) uchod, rhowch y manylion isod

Trosedd	Dyddiad y Golfarn	Ardystiadau	Cosb
---------	-------------------	-------------	------

.....

.....

.....

- 5 A ydych chi'n disgwyl unrhyw achosion llys yn eich erbyn? **YDW/NAC YDW**

Os 'Ydw', rhowch fanylion

.....

.....

- 6 (a) A ydych chi'n cael eich cyflogi neu a fyddwch chi'n cael eich cyflogi fel gyrrwr llawn-amser neu ran-amser?

LLAWN-AMSER/RHAN-AMSER.

- 6 (b) Os 'rhan-amser', nodwch am sawl awr yr wythnos y byddwch yn cael eich cyflogi

.....

- 6 (c) Rhowch enw a chyfeiriad perchennog y cerbyd y byddwch yn defnyddio eich trwydded mewn perthynas ag ef

.....

7 Manylion eich cyflogaeth (lawn-amser a rhan-amser) yn ystod y ddwy flynedd diwethaf

Enw'r Cyflogwr	Cyfeiriad y Cyflogwr	Cyfnod Cyflogaeth o.hyd at	Rheswm dros Arael
-------------------	-------------------------	----------------------------------	----------------------

.....

.....

.....

8 A oes gennych chi, neu a oedd gennych chi, drwydded yrru a roddwyd gan Awdurdod heblaw am Gyngor Sir Caerfyrddin? **OES/OEDD / NAC OES/NAC OEDD**

Os 'Oes/Oedd', rhowch fanylion

.....

.....

Rwyf wedi darllen yr amodau ac rwyf yn datgan fy mod wedi gwirio'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn a'i bod yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwyf yn deall, os byddaf yn gwneud datganiad ffug trwy wybod imi, y gall fy nghais gael ei wrthod ac y gall fy nhrwydded gael ei hatal neu ei dirymu.

DS Os byddwch yn gwneud datganiad ffug, trwy wybod ichi neu trwy esgeulustod, neu'n gadael allan unrhyw fanylion o bwys wrth roi gwybodaeth ar y ffurflen hon, byddwch yn euog o drosedd o dan ddarpariaethau Adran 57 (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a gallech gael dirwy.

Sylwer bod ymgeisydd, trwy lofnodi'r ffurflen hon, yn caniatáu i'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion am unrhyw gollfarnau neu rybuddiadau, gael ei datgelu rhwng yr Heddlu, y Cyngor a Phwyllgor Trwyddedu yr Awdurdod, ac y gallai hyn olygu y bydd materion o'r fath yn cael eu trafod mewn cyfarfod sy'n agored i'r wasg ac i'r cyhoedd ac yn cael eu cofnodi yng nghofnodion ffurfiol y cyfarfod hwnnw.

Llofnod Dyddiad
